# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 13 a 20 Mai 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

14 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ffurflen Cyfrifiad 2011

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch ffurflen cyfrifiad 2011 i sicrhau bod modd i bobl sy'n byw yng Nghymru gofnodi eu hunaniaeth yn nhermau Cymru? (WAQ35065)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr oedd y canllawiau Ystadegau Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gasglu a dosbarthu data ethnigrwydd yn argymell y dylid gofyn cwestiwn am hunaniaeth yn ogystal ag ethnigrwydd, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, gan alluogi ymatebwyr i ddisgrifio eu hunain fel Cymry. Mae hyn eisoes wedi cael ei weithredu yn yr Arolwg o'r Llafurlu. Gellir gweld y canlyniadau sydd wedi'u cyhoeddi ar:
http://www.statswales.wales.gov.uk/eng/TableViewer/Wdsview/dispviewp.asp?ReportId=926

Nid yw'r ymgynghori ynghylch cynnwys ffurflen cyfrifiad 2011 wedi dechrau eto ond bydd gan y Cynulliad rôl ffurfiol yn cytuno ar gynnwys a fformat cyfrifiad yng Nghymru yn y dyfodol. Mae opsiynau ar gyfer y rôl honno yn cael eu paratoi ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd.

### Concordatiau â'r Cynulliad Cenedlaethol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog restru'r adrannau hynny yn San Steffan nad ydynt hyd yma wedi cytuno ar goncordatiau â'r Cynulliad Cenedlaethol, a phryd y mae'n disgwyl y byddant yn cytuno ar y rhain? (WAQ35311)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi cytuno ar goncordatiau gyda holl brif adrannau Llywodraeth y DU. Mewn rhai achosion, nid yw'r rhain mwyach yn adlewyrchu strwythur Llywodraeth y DU, a mater i'r adran dan sylw yw cynnig diwygiadau.

Mae llawer o adrannau nad ydynt yn delio â ni'n rheolaidd, megis yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, Swyddfa Gogledd Iwerddon a Swyddfa'r Cyfrin Gyngor. Ni fyddwn yn disgwyl inni gytuno ar goncordat gyda nhw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Gŵyl y Gelli

**Nick Bourne:** A wnaiff Llywodraeth y Cynulliad gynnal asesiad ffurfiol o effaith gŵyl y Gelli? (WAQ35314)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae gŵyl y Gelli, fel pob corff sy'n cael grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ddarostyngedig i gyfundrefn monitro a gwerthuso grantiau'r cyngor.

### Gŵyl Jazz Aberhonddu

**Nick Bourne:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo gŵyl jazz Aberhonddu? (WAQ35315)

**Alun Pugh:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn darparu grant o £90,000 yn 2004-05 i ŵyl jazz Aberhonddu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Theatr Brycheiniog i sicrhau llwyddiant yr ŵyl.

### Dogfennau Polisi Clyweledol yr UE

**Leighton Andrews:** Am ba rai o ddogfennau polisi clyweledol yr UE y mae Adran y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Gweinidog neu ei ragflaenydd? (WAQ35319)

**Leighton Andrews:** A yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Gweinidog ynghylch dogfen y Comisiwn Ewropeaidd, 'The Future of European Regulatory Audiovisual Policy'? (WAQ35320)

**Alun Pugh:** Nid yw Adran y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â mi, nac â fy rhagflaenydd, ynghylch polisi clyweledol yr UE. Yr wyf, fodd bynnag, yn ymwybodol o'r ddogfen 'The Future of European Regulatory Audiovisual Policy'.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Ffordd Gyswllt ar gyfer y Maes Awyr

**Owen John Thomas:** Pa gymorth ydych chi'n ei roi i'r cynnig i ddarparu ffordd gyswllt ar gyfer y maes awyr a fyddai hefyd yn gweithredu fel ffordd osgoi ar gyfer Dinas Powys? (WAQ35066)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi pecyn o fesurau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy i wella'r mynediad dros dir i faes awyr rhyngwladol Caerdydd. Mae cynigion ar wahân am ffordd osgoi i Ddinas Powys, sydd wedi eu cynnwys yng nghynllun datblygu unedol Bro Morgannwg.

### Cyflogau Gweithwyr Cartref (International Greetings, Hirwaun)

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog wedi ymchwilio i'r cyflogau a delir i weithwyr cartref gan International Greetings o Hirwaun, a ariennir, yn rhannol, gan Awdurdod Datblygu Cymru, er mwyn sicrhau ei fod yn masnachu'n gyfreithlon? (WAQ35111)

**Andrew Davies:** Nac ydwyf. Fe'm hysbysir nad yw'r cwmni'n derbyn cymorth ariannol oddi wrth y WDA.

### Delta Microelectronics UK Cyf

**David Davies:** A oes un o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wedi rhoi arian i Delta Microelectronics UK Cyf, ac os felly, faint a roddwyd ac at ba ddiben? (WAQ35265)

**Andrew Davies:** Cynigiwyd £162,000 o gymorth rhanbarthol dewisol i Delta Microelectronincs Cyfyngedig ar 15 Awst 2002 er mwyn helpu i weithredu prosiect i sefydlu gwasanaeth microelectroneg ym mharc busnes Tredomen, Tredomen, Ystrad Mynach. Yr oedd y cwmni newydd hwn yn y DU i fod i gael ei sefydlu gan Delta Dansk, busnes o Ddenmarc, sy'n gyfyngedig drwy warant ac wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Denmarc fel sefydliad technolegol. Byddai'r cwmni newydd yn gweithredu ym maes microelectroneg, yn darparu gwasanaethau i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes i'w helpu i arloesi ac ehangu drwy gyfryngau technoleg gwybodaeth.

Amcangyfrifwyd mai £156,000 fyddai'r gwariant cyfalaf ar y prosiect. Gan mai cynnig cymorth rhanbarthol dewisol er mwyn helpu i greu swyddi a wnaed yma, yr oedd yr amodau hefyd yn cynnwys elfen wedi'i chyfalafu o gostau cyflogau'r 10 swydd newydd oedd i fod i gael eu creu. Disgwylir i gostau'r cyflogau hyn ddod i gyfanswm o oddeutu £712,800. Nid oes taliadau wedi cael eu gwneud hyd yma.

**Casglwyr Cocos Moryd y Burry**

**Helen Mary Jones:** Pam nad yw'r casglwyr cocos ym moryd y Burry wedi cael atebion gan y Gweinidog i ohebiaeth ers mis Tachwedd 2003, a phryd y bydd y Gweinidog yn ymweld â chasglwyr cocos moryd y Burry? (WAQ35266)

**Helen Mary Jones:** Pam y defnyddiwyd 1999 yn flwyddyn gyfeirio ar gyfer dyrannu taliadau caledi i gasglwyr cocos moryd y Burry? (WAQ35267)

**Helen Mary Jones:** Pam y seiliwyd y taliadau caledi i gasglwyr cocos moryd y Burry ar wythnos waith saith diwrnod yn hytrach nag ar wythnos waith chwe diwrnod? (WAQ35276) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Bu'n rhaid i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau yn unol â'r pecyn cymorth ariannol fodloni gofynion archwilio Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Ewropeaidd. Bu hon yn broses gymhleth i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phriodoldeb. Drwy gydol y broses, mae swyddogion wedi ceisio rhoi gwybodaeth lawn i gasglwyr.

Mae'n ddrwg gennyf y bu oedi cyn delio â gohebiaeth. Ar 28 Ebrill, ysgrifennais at bawb â buddiant yn y sefyllfa, gan roi sylw i'w pryderon a chynnig darlun cyffredinol o'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma. Nid oes gennyf gynlluniau i gwrdd â'r casglwyr. Mae'r cymorth ariannol yn caniatáu taliadau am gyfnod o hyd at chwe mis i adlewyrchu'r colledion incwm net, o waith casglu cocos, sydd wedi'u cadarnhau. Mae'r taliadau wedi'u seilio ar flwyddyn orau unigolyn yn y ddwy flynedd yn union cyn i'r gwelyau cocos gau, er enghraifft, 1 Ebrill 1999 tan 31 Mawrth 2001. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd y cyfnod hwn yn adlewyrchu gweithgarwch arferol unigolyn a chafodd y taliadau hynny eu cyfrifo ar sail pro rata. Hyd yma, mae £192,830 wedi cael ei dalu i 34 o'r 49 casglwr sydd wedi gwneud cais o dan y cynllun. Mae'r casglwyr a gyflwynodd y ceisiadau nad ydynt wedi cael eu prosesu'n llawn eto yn gwybod bod yn rhaid cyflwyno dogfennau ategol pellach erbyn 30 Mehefin er mwyn i daliadau gael eu gwneud.

**Technoleg Oes Fictoria ar Reilffyrdd**

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau y ceir gwared ar dechnoleg oes Fictoria (gan gynnwys lampau olew) o ran signalau rheilffyrdd yng Nghymru? (WAQ35268)

**Andrew Davies:** Network Rail sy'n berchen ar seilwaith y rheilffyrdd ac sy'n gyfrifol am ei gynnal a sicrhau ei fod yn gweithio'n ddiogel ac yn effeithlon. Nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

**Twnnel Penmaenbach**

**Lisa Francis:** A oes rhagor o gynlluniau i leihau twnnel Penmaenbach i draffig un lôn dros dymor yr haf? (WAQ35269)

**Andrew Davies:** Nid oes cynlluniau ar gyfer cyfyngiadau pellach ym Mhenmaenbach dros dymor yr haf ac eithrio cau'r lôn ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol ddwywaith dros nos.

**Gwella'r Ariannu ar gyfer Busnesau Bach**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella'r ariannu ar gyfer busnesau bach yn y Gogledd? (WAQ35277)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill', strategaeth datblygu economaidd genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn nodi ein polisïau a'n rhaglenni i Gymru. Yn yr haf, byddaf yn cyhoeddi'r ail

adroddiad blynyddol ar y cynnydd cadarnhaol y mae Llywodraeth y Cynulliad a'n partneriaid yn ei wneud.

Mae cymorth ar gael i fusnesau bach yn y Gogledd, megis gweddill Cymru, drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a'r awdurdodau lleol ar nifer o ffurfiau gwahanol, sy'n amrywio o grantiau a benthyciadau i ariannu gwasanaethau cymorth cyffredinol ac arbenigol a fwriadwyd i helpu busnesau gyda phroblemau cyffredin ac anghenion datblygu.

Fel enghraifft, ers cyflwyno grant buddsoddi'r Cynulliad ym mis Ebrill 2002, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig 214 o grantiau buddsoddi'r Cynulliad i fusnesau bach a chanolig eu maint, sy'n dod i gyfanswm o bron i £7 miliwn yn y Gogledd yn unig (ardaloedd awdurdodau unedol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, sir Ddinbych, sir y Fflint a Wrecsam). Disgwylir i'r prosiectau hyn arwain at fuddsoddiad o dros £23 miliwn ac at 300 a mwy o swyddi newydd.

**Prosiectau Amcan 1 yn y Gogledd**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt prosiectau Amcan 1 yn y Gogledd? (WAQ35278)

**Andrew Davies:** Erbyn diwedd mis Ebrill, yr oedd tua £100 miliwn o arian Amcan 1 wedi cael ei rwymo i dros 160 o brosiectau lleol yn y Gogledd, gyda chyfanswm o dros £240 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y prosiectau. Mae'r prosiectau hyn wedi adrodd bod tua 4,450 o swyddi crynswth newydd yn cael eu creu a bod dros 5,400 o swyddi'n cael eu diogelu. Yn ogystal, mae nifer o brosiectau rhanbarthol wedi creu neu wedi diogelu 10,000 o swyddi pellach yn yr ardal.

Nodyn: mae ardal gogledd Cymru yn cynnwys ardaloedd partneriaethau lleol Ynys Môn, Conwy, sir Ddinbych a Gwynedd.

**Cyfleoedd Gwaith yn Ne Caerdydd a Phenarth**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddod â chyfleoedd gwaith i Dde Caerdydd a Phenarth? (WAQ35279)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn tynnu sylw at yr angen i helpu rhagor o bobl i gael hyd i swyddi drwy gynyddu gweithgarwch economaidd. Mae Tîm Cymru yn rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth ar waith er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o economi Gymreig ffyniannus sy'n ddeinamig, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy, ac wedi'i seilio ar fusnesau llwyddiannus, arloesol sydd â staff sy'n meddu ar sgiliau a chymhelliant sylweddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mewn nifer o gwmnïau gwasanaethau cyllid a busnes yng Nghaerdydd wedi ehangu, gan greu tua 1,250 o swyddi newydd, ac mae sawl cwmni wedi cael ei ddenu i'r ardal gan yr enw da y mae sectorau gwasanaethau ariannol a busnes y ddinas yn ei ennill yn gynyddol. Rhoddwyd hwb hefyd i sector adwerthu Caerdydd ym mis Tachwedd 2003 gyda dyfodiad IKEA, a greodd 400 o swyddi newydd. Yn ogystal, gyda chymorth arian Amcan 2, mae gwaith wedi dechrau ar ailwampio Beynon House yn Sgwâr Mount Stuart, adeilad rhestredig gradd II, er mwyn creu canolfan Cyfryngau Digidol Caerdydd. Bydd gan y ganolfan 14,000 tr sg o ofod fel man i feithrin busnesau bach a busnesau newydd yn sector busnes y cyfryngau newydd.

**Y Mesur Pensiynau**

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Pensiynau? (WAQ35280)

**Andrew Davies:** Yr wyf fi a'r Prif Weinidog yn cysylltu'n rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau.

## Posibiliadau Twristiaeth Treftadaeth

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'i gyd-Weinidog, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ynghylch datblygu posibiliadau twristiaeth dreftadaeth? (WAQ35282)

**Andrew Davies:** Mae cynnyrch diwylliannol a threftadaeth Cymru yn hynod amrywiol. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar dwristiaeth ddiwylliannol er mwyn gwireddu'r strategaeth ar y cyd â chyrff partner. Mae'r bwrdd hefyd yn cefnogi menter dreftadaeth Herian i ddatblygu twristiaeth yng Nghymoedd y De. Byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog diwylliant yn ôl yr angen i drafod materion o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.

## Adfywio Economaidd yn y Rhyl

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch adfywio economaidd yn y Rhyl? (WAQ35283)

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cynnwys yr adroddiad ar adfywio economaidd yn y Rhyl, 'Rhyl Going Forward'? (WAQ35284)

**Andrew Davies:** Yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn y Rhyl, mae strategaeth a rhaglen fuddsoddi allweddol ar gyfer yr ardal, a ddarparwyd gan y PACT sector cyhoeddus gogyfer â'r Rhyl, wedi dod i law. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried y strategaeth, yn arbennig yng nghyd-destun cynllun gofodol Cymru, a byddant yn gwneud trefniadau i gwrdd â'r rhanddeiliaid, gan eich cynnwys chi a Chris Ruane AS.

## Ffigurau ar gyfer Swyddi yn 2003

**Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer swyddi yn 2003? (WAQ35286)

**Andrew Davies:** Dengys y wybodaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu fod 1,316,000 o bobl mewn cyflogaeth, ar gyfartaledd, yng Nghymru rhwng mis Mawrth 2003 a mis Chwefror 2004. Yr oedd hyn yn gynnydd o dros 50,000 o'i gymharu â 2002 a bron i 90,000 o'i gymharu â 2001. Yr oedd y gyfradd gyflogaeth i bobl o oed gwaith yn 72.6 y cant, i fyny o 68.5 y cant yn 2001 a 70.2 y cant yn 2002. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o'r Arolwg o'r Llafurlu am fis Ionawr i fis Mawrth 2004 yn dangos bod y lefelau cyflogaeth hyn, sy'n hanesyddol o uchel, yn cael eu cynnal, gyda chyfanswm y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 1,321,000 a'r gyfradd gyflogaeth i bobl o oed gwaith yn dal yn 72.6 y cant.

## Darpariaeth Band Eang

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch y ddarpariaeth band eang yng Nghymru? (WAQ35289)

**Andrew Davies:** Mae statws y gwasanaeth band eang sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru wedi gwella'n ddramatig yn ystod oes rhaglen Band Eang Cymru.

- Ar ddechrau'r rhaglen ym mis Gorffennaf 2002, yr oedd tua 30 o gyfnewidfeydd, o gyfanswm o 439, yn gallu gweithredu ar ADSL. Golygai hyn mae dim ond 35 y cant o boblogaeth Cymru oedd yn gallu manteisio ar fand eang drwy ADSL.
- Mae argaeledd band eang ar draws Cymru wedi gwella'n ddramatig erbyn hyn, gyda dros 132 o gyfnewidfeydd yn gallu gweithredu ar ADSL, sy'n golygu bod dros 76 y cant o'r boblogaeth yn gallu manteisio ar wasanaethau rhyngrwyd cyflym.
- Bydd y sefyllfa hon yn gwella ymhellach gydag ymrwymiad BT yn ddiweddar i alluogi'r holl gyfnewidfeydd dichonadwy yng Nghymru i weithredu ar ADSL erbyn haf 2005. Mae Llywodraeth

Cynulliad Cymru yn archwilio nifer o opsiynau i sicrhau bod y 35 cyfnewidfa sy'n cael eu hystyried yn annichonadwy am resymau masnachol hefyd yn gallu derbyn band eang.

- Mae rhaglen Band Eang Cymru wedi parhau i ddarparu cysylltedd band eang yn gyflym i sefydliadau amrywiol ar draws y sector cyhoeddus.
- Mae'r rhwydwaith dysgu gydol oes wedi darparu mynediad rhyngrwyd cyflym i 67 y cant o'r ysgolion uwchradd ac mae rhwydwaith DAWN 2 y gwasanaeth iechyd wedi darparu gwasanaethau band eang i 96 y cant o brif feddygfeydd Cymru.

### Rhwydwaith Ffyrdd Cefn Gwlad Sir Fynwy

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rwydwaith ffyrdd cefn gwlad sir Fynwy? (WAQ35291)

**Andrew Davies:** Y cyngor sir, fel yr awdurdod priffyrdd lleol, sy'n cynnal a chadw ffyrdd gwledig sir Fynwy o'i adnoddau ei hun a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r setliad llywodraeth leol.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trefniadau ariannu ar gyfer y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt? (WAQ35292)

**Andrew Davies:** Mae'r arian ar gyfer y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yr wyf fi'n gyfrifol amdanynt yn cael ei bennu drwy drefniadau cyllidebu arferol y Cynulliad. Cytunwyd ar y cyllidebau ar gyfer 2004-05 a'r cynlluniau cyllidebu dangosol ar gyfer 2005-06 a 2006-07 fel rhan o'r gyllideb atodol yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth, 2004.

### Twnelau Brynglas

**William Graham:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio llain galed yr M4 wrth ddynesu at dwnelau Brynglas er mwyn helpu i leihau'r tagfeydd traffig yno? (WAQ35293)

**Andrew Davies:** Ystyriwyd y mater hwn fel rhan o'r astudiaeth 'Making Better Use' sy'n ymdrin â'r M4 rhwng pont Hafren a Meisgyn. Ysbeidiol yw'r llain galed ar y ffyrdd dynesu at dwnelau Brynglas tua'r dwyrain a'r gorllewin oherwydd cyfyngiadau daearyddol yr M4 yn y lleoliad hwn ac nid oes modd eu haddasu'n ddiogel nac yn hawdd i weithredu fel lôn ychwanegol yn ystod cyfnodau brig. Mae'r trefniadau dileu lôn ar gyffordd 25 tua'r gorllewin yng Nghaerllion a chyffordd 26 tua'r dwyrain ym Malpas eisoes yn darparu slipffyrdd pwrpasol ar gyfer traffig sy'n gadael y draffordd. Mae trefniadau cyffelyb ar waith i ailgyflwyno lôn ar y cyffyrdd hyn.

### Darparu Celfi ar gyfer Gweithio Gartref

**Nick Bourne:** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i gyflogwyr preifat ynghylch darparu celfi ar gyfer gweithio gartref? (WAQ35316)

**Andrew Davies:** Dim.

### Colli Swyddi yn ITV1, Croes Cwrlwys

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch dyfodol ITV1 Cymru a phryderon y staff am golli swyddi yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd? (WAQ35318)

**Andrew Davies:** Nid oes gennyf wybodaeth benodol am sut y bydd ymarferiad rhesymoli ITV yn effeithio'n uniongyrchol ar Croes Cwrlwys.

### Ffordd Osgoi y Bontnewydd ar Wy ym Mhowys

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch ffordd osgoi'r Bontnewydd ar Wy ym Mhowys? (WAQ35354)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer gwelliant yr A470 rhwng Cwmbach a'r Bontnewydd ar Wy yn ddiweddarach yr haf hwn, yn sgîl yr ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd. Bydd penderfyniad ynghylch ffordd osgoi bosibl ar gyfer y Bontnewydd ar Wy yn cael ei gynnwys wrth gyhoeddi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

### Diogelu Beicwyr ar Ffyrdd Cymru

**Nick Bourne:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu beicwyr ar ffyrdd Cymru? (WAQ35355)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn sicrhau bod ein gwaith ar gefnffyrdd yn gwella amodau i feicwyr ac yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion beicwyr o bob math. Yn ogystal, yr ydym yn darparu arian i awdurdodau lleol o dan y grant trafnidiaeth ar gyfer cynlluniau yn eu hardaloedd a fydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer beicwyr, ac yn gwella cyfleusterau cyfredol.

### Diogelu Cerddwyr ar Ffyrdd Cymru

**Nick Bourne:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu cerddwyr ar ffyrdd Cymru? (WAQ35356)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn sicrhau bod ein gwaith ar gefnffyrdd yn gwella amodau i gerddwyr ac yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion cerddwyr o bob math. Yn ogystal, yr ydym yn darparu arian i awdurdodau lleol o dan y grant trafnidiaeth ar gyfer cynlluniau yn eu hardaloedd a fydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cerddwyr, ac yn gwella cyfleusterau cyfredol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Y Mesur Cludiant Ysgol Arfaethedig

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o sut y bydd y Mesur Cludiant Ysgol arfaethedig yn effeithio ar ddiogelwch plant sy'n teithio i'r ysgol ac adref? (WAQ34711)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Byddai'r Mesur Cludiant Ysgol drafft yn galluogi nifer fach o awdurdodau i dreialu trefniadau cludiant ysgol arloesol. Diben cynnal cynlluniau peilot yw gwerthuso eu heffaith, felly mae'n rhy gynnar i asesu sut y gallai'r Mesur wella diogelwch i blant ar eu siwrneiau i'r ysgol ac oddi yno—bydd llawer yn dibynnu ar natur y cynlluniau.

Nod y Mesur yw galluogi awdurdodau addysg lleol i ystyried anghenion teithio'r holl blant yn eu hardaloedd a gwneud trefniadau sy'n annog rhagor o ddisgyblion i gerdded, beicio neu fynd ar y bws i'r ysgol yn hytrach na theithio yn y car. Drwy ganiatáu i awdurdodau addysg lleol godi tâl cymedrol, ac eithrio ar ddisgyblion o deuluoedd sydd ar incwm isel, dylai'r Mesur alluogi awdurdodau i drefnu darpariaeth bysiau ysgol fwy cynhwysfawr na'r hyn a geir ar hyn o bryd a gallai ganiatáu iddynt fuddsoddi mewn cerbydau sydd â gwell cyfleusterau, er enghraifft, bysiau â theledu cylch cyfyng, gwregysau neu nodweddion diogelwch eraill rhagorach. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i awdurdodau addysg lleol osod prisiau ar lefel nad yw'n amharu ar y nod o leihau nifer y ceir sy'n cludo plant i'r ysgol.

Cyn cyflwyno eu cynlluniau i'w cymeradwyo gan y Cynulliad, bydd angen i awdurdodau addysg lleol ymgynghori yn lleol a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni a chwmnïau bysiau. Byddem yn disgwyl i unrhyw gynlluniau peilot arfaethedig egluro sut y bydd yr awdurdod yn sicrhau bod cerbydau o safon dda, sy'n cael eu cynnal yn dda, yn cael eu defnyddio ar gyfer cludiant ysgol, a chynnwys strategaeth i sicrhau ymddygiad da ar fysiau ysgol.

**Gwerthu Caeau Chwarae Ysgolion**

**John Marek:** Beth yw polisi'r Gweinidog ar werthu caeau chwarae ysgolion? (WAQ35270)

**Jane Davidson:** Mater i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol ysgolion yn hwn yn y lle cyntaf. Mae'r trefniadau a sefydlwyd yn 1998 yn golygu bod yn rhaid ymgynghori'n llawn ynghylch cynigion drwy'r prosesau cynllunio arferol ac ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru i asesu effaith y cynigion gwaredu. Rhaid i'r cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gael caniatâd y Cynulliad i waredu tir. Nid yw gwerthu caeau ysgol yn fater mawr yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Ailstrwythuro'r Sector Addysg Uwch (Arian ac Amserlen)**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o arian a neilltuwyd yn wreiddiol ar gyfer ailstrwythuro'r sector addysg uwch a pha amserlen a bennwyd ar ei gyfer? (WAQ35321)

**Jane Davidson:** Yr arian a ddarparwyd ar gyfer ailstrwythuro'r sector addysg uwch oedd £3 miliwn yn 2002-03, £6 miliwn yn 2003-04 ac £8 miliwn yn 2004-05. Dyma'r cyllidebau diwygiedig wedi'u haddasu hyd nes y bydd yr adolygiad llawn o wariant wedi'i gwblhau ac nid ydynt yn cynnwys yr arian a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau ehangu mynediad o dan y gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch'.

Yr oeddwn yn siomedig fod £4 miliwn o gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch' wedi'i golli i'r sector yn 2003-04 oherwydd arafwch wrth gytuno ar gynigion cydweithredu pendant ac yr wyf yn disgwyl i'r sector sicrhau y bydd yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyllido sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol hon.

**Ailstrwythuro'r Sector Addysg Uwch (Arian a Ddefnyddiwyd hyd yma)**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o arian a ddefnyddiwyd hyd yma i ailstrwythuro'r sector addysg uwch, a chyhoeddi tabl sy'n dangos sut y defnyddiwyd yr arian hwnnw? (WAQ35322)

**Jane Davidson:** Hyd yma, dyrannwyd ychydig dros £16 miliwn i ariannu'r gwaith o ailstrwythuro'r sector addysg uwch yng Nghymru.

| **Partneriaid** | | **Cynnig** | **Ymrwymiad (hyd at £k)** |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Caerdydd | Coleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd | Datblygu 'Prosiect Cynghreirio', yn arwain at uno | 15,000 |
| Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru | Prifysgol Cymru, Bangor | Arfarnu'r syniad o greu un brifysgol i ogledd Cymru | 250 |
| Prifysgol Morgannwg | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | Arfarnu opsiwn uno ac opsiynau eraill | 250 |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | Prifysgol Morgannwg | Arfarniad i ddynodi opsiynau ar gyfer cydweithredu strategol | 100 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Cymru Abertawe | Athrofa Addysg Uwch Abertawe | (a) rhesymoli'r ddarpariaeth yn y gyfraith, nyrsio a hyfforddiant cychwynnol i athrawon<br>(b) asesu'r posibiliadau i gydweithredu ymhellach wrth ddarparu gwasanaethau cymorth | 150 |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | Astudiaeth ddichonoldeb: cydweithredu o fewn ITET | 30 |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Prifysgol Cymru, Bangor | Dadansoddiad strategol: cydweithredu ar ymchwil a gwaith addysgu | 100 |
| Coleg y Drindod, Caerfyrddin | Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan<br>Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Cydweithredu ym maes archaeoleg (Coleg y Drindod/Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan); ITET (Coleg y Drindod/Prifysgol Cymru, Aberystwyth); gwasanaethau cymorth (Coleg y Drindod/Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan) | 250 |
| Prifysgol Cymru, Bangor | Coleg Menai | Cydweithredu ar wasanaethau gweinyddol | 38 |
| **Cyfanswm** | | | **16,168** |

### Darpariaeth Addysg Cyn Oed Ysgol

**Janet Ryder:** Pa amcangyfrifon a wnaed o'r gost o sicrhau bod un person ym mhob canolfan gofal dydd eisoes wedi meithrin arbenigedd o ran addysg cyn oed ysgol, neu wrthi'n gwneud hynny? (WAQ35323)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn WAQ35325. Gan fod y gofynion hynny o ran cymwysterau eisoes yn bodoli, nid ydynt yn cynrychioli cost ychwanegol.

### NVQ Mewn Gofal Plant

**Janet Ryder:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i olrhain hynt gyrfa'r rheini sy'n ennill cymhwyster NVQ mewn gofal plant ar unrhyw lefel? (WAQ35324)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi cymryd camau o'r fath.

### Darpariaeth Addysg Cyn Oed Ysgol

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod un person ym mhob canolfan gofal dydd yn mynd ati i feithrin arbenigedd o ran darparu addysg cyn oed ysgol? (WAQ35325)

**Jane Davidson:** Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal dydd llawn yn datgan y dylai'r sawl sy'n gyfrifol am sefydliad gofal dydd llawn feddu ar gymhwyster lefel 3 o fframwaith cymwysterau cenedlaethol Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru gogyfer ag addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae sy'n briodol i'r swydd.

Mae'n ofynnol hefyd yn ôl y safonau fod 80 y cant o'r staff gofal plant nad ydynt yn oruchwylwyr â chymwysterau priodol hyd at lefel 2 o leiaf, ac y dylai o leiaf hanner y rhain feddu ar gymhwyster ar lefel 3. Lle nad oes modd cyflawni hyn ar unwaith, dylai'r person cofrestredig nodi cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu bodloni'r maen prawf hwn ac yn unol â pha amserlen. Bydd Arolygiaeth

Safonau Gofal Cymru yn ystyried y cynllun ac yn cynnig ei gymeradwyo neu'n nodi'r agweddau y mae angen gwella arnynt.

**NVQ Lefel 2, 3 a 4 mewn Gofal Plant (Amser a dreuliwyd gyda'r Myfyrwyr)**

**Janet Ryder:** Pan fydd myfyriwr yn cael ei asesu ar gyfer cymhwyster NVQ lefel 2, 3 a 4 mewn gofal plant, pa ganran o'r amser y mae'r aseswr yn ei dreulio gyda'r myfyriwr yn y gweithle, a pha ganran y mae'n ei dreulio yn gwneud gwaith papur? (WAQ35327)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Cymhwyster NVQ mewn Gofal Plant (Cost i Gyflogwyr)**

**Janet Ryder:** Pa asesiad a wnaed o'r gost i gyflogwyr o ddarparu cymhwyster NVQ mewn gofal plant hyd at lefel 2, 3 a 4, ac a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r costau hynny? (WAQ35328)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog. Mae'r gost o ennill cymwysterau o'r fath yn amrywio rhwng darparwyr hyfforddiant.

**Ailstrwythuro'r Sector Addysg Uwch (Arian ac Amserlenni)**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o'r arian a neilltuwyd i ailstrwythuro'r sector addysg uwch sy'n dal i fod ar gael, a pha amserlen sydd ar waith, os o gwbl, ar gyfer defnyddio'r arian hwnnw? (WAQ35330)

**Jane Davidson:** Mae'r dyraniad ar gyfer ailstrwythuro o dan 'Ymgeisio yn Uwch' yn £8 miliwn ar gyfer 2004-05, a gweddill yr arian sydd i gael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yw £832,00 o'r swm hwnnw.

O ran yr agenda ailstrwythuro, nodais strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y sector yn 'Ymgeisio yn Uwch', sy'n dynodi llwybr clir ar gyfer y sector hyd at 2010. Mae hon yn strategaeth tymor hir ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ein bod yn rhoi cefnogaeth lawn i'r sector wrth iddo ymgyrraedd tuag at ailstrwythuro a safle o nerth cystadleuol.

**Lwfansau Cynhaliaeth**

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu darparu lwfansau cynhaliaeth o hyd at £30 yr wythnos i ddisgyblion sy'n aros yn yr ysgol ar ôl troi'n 16 oed? (WAQ35334)

**Jane Davidson:** Mabwysiadir yr un drefn â'r un sy'n cael ei rhoi ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Felly, yr un fydd y meini prawf cymhwyso a lefel y dyfarniadau ledled y DU.

Mae'r cyrsiau cymwys yn cwmpasu cyrsiau hyd at ac yn cynnwys lefel 3. Bydd hawl i fyfyrwyr ar aelwydydd sydd ag incwm o hyd at £19,630 gael £30 yr wythnos, i'r rheini yn y band incwm £19,631 i £24,030 gael £20 a, lle bo incwm yr aelwyd rhwng £24,031 a £30,000, gellir cael £10. Ceir taliadau bonws o £100 ym mis Ionawr a mis Gorffennaf ym mhob blwyddyn academaidd, ynghyd â thaliadau bonws ychwanegol ym mis Medi neu fis Hydref i'r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu am ail flwyddyn neu flwyddyn ddilynol. Bydd y lwfans cynhaliaeth addysg ar gael i fyfyrwyr 16 oed yn y flwyddyn gyntaf a chaiff ei ehangu i gynnwys myfyrwyr 17 oed a 18 oed dros y ddwy flynedd ddilynol.

Caiff y cynllun lwfansau cynhaliaeth addysg ei ddarparu yng Nghymru gan un darparwr gwasanaeth. Yr ydym yn cydweithredu ag adran addysg Gogledd Iwerddon a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i ddatblygu'r cynllun. Bydd deunydd cyhoeddusrwydd ar gael i ysgolion a cholegau er mwyn iddynt allu rhoi gwybodaeth a chyngor i'w myfyrwyr, a bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn trefnu sesiynau

ymgyfarwyddo a hyfforddi i staff perthnasol mewn ysgolion a cholegau. Yr ydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o waith ychwanegol i golegau ac ysgolion, ond bydd darpariaeth ariannol i helpu gyda hyn.

### Ffïoedd Ychwanegol Prifysgolion

**Nick Bourne:** Gan gyfeirio at WAQ34667, a wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch ei thrafodaethau ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ynghylch ffïoedd ychwanegol prifysgolion? (WAQ35376)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ar sawl achlysur i drafod ffïoedd ychwanegol prifysgolion a materion cysylltiol, yn fwyaf diweddar ar 8 Mawrth 2004, ac ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i drafod y Mesur Addysg Uwch.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Neuadd Chwaraeon Newydd St. Julian's

**Michael German:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod amodau ynghylch lleoliad neuadd chwaraeon newydd St. Julian's ar safle Ysgol Uwchradd St Julian's ar gyfraniad y Cynulliad at gost y datblygiad? (WAQ35110)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r arian ar gyfer adeiladu'r neuadd chwaraeon newydd yn Ysgol Uwchradd St Julian's yn cael ei ddarparu gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel rhan o'i rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Mater i'r Gronfa Cyfleoedd newydd yw'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth yr arian hwnnw.

### Fferm Wynt Cefn Croes

**Lisa Francis:** Am ba hyd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhagweld y bydd gwaith adeiladu fferm wynt Cefn Croes ger Aberystwyth yn parhau? (WAQ35271) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mater i'r datblygwr yw amseriad gwaith adeiladu'r fferm wynt, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â'r amodau a bennwyd yn y caniatâd o dan Adrannau 36 a 37 Deddf Trydan 1989. Mae'r caniatâd Adran 36 a'r caniatâd cynllunio yn cynnwys amodau fod yn rhaid i'r gwaith adeiladu ddechrau ymhen pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd fan hwyraf. Mae gwaith adeiladu ar y ffordd fynediad a'r llwybrau ar y safle wedi dechrau a deallaf fod y datblygwr yn darogan y bydd yr orsaf yn dechrau cynhyrchu trydan cyn diwedd 2004.

### Prosiect Fferm Wynt Cefn Croes (Cymal Cosbi)

**Lisa Francis:** A oes cymal cosbi'n rhan o brosiect fferm wynt Cefn Croes? (WAQ35272) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Andrew Davies:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gymalau cosbi.

### Carthffosydd Preifat

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael â phroblem carthffosydd preifat yng Nghymru? (WAQ35310)

**Carwyn Jones:** Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Chefn Gwlad bapur ymgynghori ym mis Gorffennaf 2003, yn crynhoi canfyddiadau gwaith ymchwil i garthffosydd a draeniau preifat sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr ac yn ceisio barn am welliannau ac atebion posibl. Bwriadaf gyhoeddi cynigion am y ffordd ymlaen yn gynnar yn yr haf.

## Ffermydd Cwn Bach

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu a fydd safonau ac amodau yn cael eu gosod ar gyfer ffermydd cwn bach i ddiogelu lles yr anifeiliaid dan sylw, a phwy fydd yn gyfrifol am ddrafftio'r safonau a'r amodau hyn? (WAQ35312)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu a fydd ffermydd cwn bach yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau y cynhelir y safonau uchaf er lles yr anifeiliaid, a phwy fydd yn gyfrifol am gynnal yr archwiliadau hyn? (WAQ35313)

**Carwyn Jones:** Nid yw bridio cwn yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli. Cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw a chaiff ei gweithredu a'i gorfodi gan yr awdurdodau lleol drwy eu pwerau o dan y system i drwyddedu sefydliadau bridio cwn a sefydlwyd gan Ddeddf Bridio Cwn 1973 a Deddf Bridio Cwn 1991. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn cynhyrchu'r cod ymarfer ar gadw anifeiliaid mewn sefydliadau bridio a chyflenwi penodedig—mae a wnelo rhan 2, adran 7 â chwn.

Mater i'r awdurdod lleol yw archwilio eiddo lle mae cwn yn cael eu bridio. Mae'r awdurdodau lleol, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn archwilio pob bridiwr. Os oes dwy neu fwy o eist, rhaid cofrestru gyda'r cyngor, ac os oes cwn bach i gael eu hallforio mae'n orfodol cofrestru gydag adran iechyd anifeiliaid DEFRA. Pan fydd bridwyr cwn yn cofrestru gyda'r awdurdod lleol cynhelir archwiliad milfeddygol cyn rhoi trwydded. Mae'r archwiliad hwn yn unol â safon ofynnol genedlaethol y cytunwyd arni, ond gall yr awdurdod lleol ychwanegu ati; er enghraifft, mae un awdurdod lleol yng Nghymru yn mynnu na cheir defnyddio pren o gwbl yn adeiladwaith y cenelau. Mae arolygydd yr awdurdod lleol yn ymweld wedyn, yn ddirybudd a bob hyn a hyn yn rheolaidd, ar ôl i drwydded gael ei rhoi.

## Taliadau Dad-ddwysáu

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad o ran pa un a fydd ffermwyr Cymru yn derbyn taliadau dad-ddwysáu o dan reolau'r system integredig gweinyddu a rheoli a nodir yn rheoliadau cyngor 3508/92 a 2419/01? (WAQ35331)

**Carwyn Jones:** Mae'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd o blaid taliadau dad-ddwysáu i ffermwyr yng Nghymru yn rheoliad 3508/92 y cyngor, rheoliad 1254/99 y cyngor, rheoliad 2342/99 y comisiwn a rheoliad 2419-01 y comisiwn.

Y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n pennu'r rheolau manwl a gymhwysir i'r cynllun taliadau dad-ddwysáu yng Nghymru yw offeryn statudol Cymru 2001 rhif 864.

## Gwelliannau i Ffordd yr A470 (Tai a brynir yn Orfodol)

**Nick Bourne:** Faint o dai fydd yn rhaid eu prynu'n orfodol er mwyn i welliannau i ffordd yr A470 rhwng Erwd a Llanfair ym Muallt fynd rhagddynt, ac erbyn pa bryd y bydd yn rhaid iddynt fod yn wag? (WAQ35332) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Andrew Davies:** Nid yw'r cynllun gwella sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn golygu prynu unrhyw dai preswyl drwy orfodaeth.

## Pasportau i Geffylau

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar basbortau i geffylau ac a wnaiff nodi pryd yn union fydd y goblygiadau newydd mewn cysylltiad â phasportau i geffylau yn dod i rym yng Nghymru mewn cymhariaeth â gweddill y DU? (WAQ35341)

**Carwyn Jones:** Mae'n ofynnol yn ôl penderfyniad 2000/68 y Comisiwn Ewropeaidd i bob ceffyl fod â phasport. Fodd bynnag, mae'r dyddiad gorfodi yn cael ei ystyried ymhellach ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Lwfansau a Budd-daliadau i Dalwyr y Dreth Gyngor

**Glyn Davies:** Faint o dalwyr y dreth gyngor yng Nghymru nad ydynt yn manteisio ar y lwfansau a'r budd-daliadau sydd ar gael iddynt i leddfu baich y dreth gyngor? (WAQ35040)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid yw'r ffigurau am y niferoedd sy'n manteisio ar fudd-dal y dreth gyngor yn cael eu cynhyrchu ar sail Cymru na sail ranbarthol. Ledled y DU, amcangyfrifir bod 2.3 miliwn o bobl ar eu colled am nad ydynt yn hawlio budd-daliadau'r dreth gyngor, sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddiogelwch ariannol dros chwarter miliwn o bobl ar incwm isel yng Nghymru.

### Dodrefn ar gyfer Gweithio Gartref (CCNC)

**Nick Bourne:** Os oes unrhyw CCNC yng Nghymru yn darparu dodrefn ar gyfer gweithio gartref, allai'r Gweinidog nodi'r gost yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac ym mhob blwyddyn ariannol er 1999? (WAQ35056)

**Sue Essex:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

### Darparu Dodrefn ar gyfer Gweithwyr (CCNC)

**Nick Bourne:** A oes unrhyw CCNC yng Nghymru yn darparu dodrefn ar gyfer gweithwyr, ac os oes rhai, pwy yw'r cyrff hynny? (WAQ35057)

**Sue Essex:** Materion i CCNC unigol yw materion yn ymwneud â swyddfeydd. Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

### Dodrefn ar gyfer Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o'r £6 miliwn yn llythyr tender y cyfnodolyn swyddogol, mewn perthynas â dodrefn y Cynulliad, a fwriedir ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ35059)

**Sue Essex:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i WAQ33144.

### Cytundebau Polisi

**Michael German:** Pryd mae'r Gweinidog yn tybio y caiff cytundebau polisi eu cwblhau a'u cymeradwyo'n derfynol gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn achos awdurdodau lleol Caerffili, Merthyr Tudful, sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd a Thor-faen? (WAQ35307)

**Sue Essex:** Mae fy swyddogion yn y broses o negodi cytundebau gyda phob un o'r awdurdodau hyn, a chytunwyd eisoes ar ddata llinell sylfaen, cerrig milltir a thargedau ar y lefel hon ar gyfer rhai mesurau. Byddaf yn rhoi gwybod ichi pan fydd y cytundebau i gyd wedi cael eu cwblhau.

### Cytundebau Polisi Drafft

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog nodi pryd y derbyniwyd y cytundebau polisi drafft gan awdurdodau lleol Caerffili, Merthyr Tudful, sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd a Thor-faen? (WAQ35308)

**Sue Essex:** Mae'r awdurdodau wedi mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i gyflwyno'u cynigion yng nghyswllt eu cytundebau polisi. Mae fy swyddogion wedi derbyn cynigion oddi wrth bob un o'r awdurdodau hyn ac mae'r trafodaethau er mwyn cwblhau'r cytundebau yn mynd rhagddynt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Biwrocratiaeth yn y Gwasanaeth Iechyd

**Nick Bourne:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu lleihau biwrocratiaeth yn y gwasanaeth iechyd? (WAQ35019)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Amlygodd yr adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yr angen i leihau biwrocratiaeth yn y gwasanaeth iechyd. Fel rhan o roi argymhellion yr adolygiad ar waith, mae'r fframwaith perfformiad yn cael ei gryfhau a bydd yn ymdrin â meysydd lle mae modd dileu biwrocratiaeth ddianghenraid.

### Comisiynydd Plant Cymru

**Sandy Mewies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch dyfodol Comisiynydd Plant Cymru? (WAQ35044)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cyfnewid gohebiaeth gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU nifer o weithiau ynghylch rôl Comisiynydd Plant Cymru yng ngoleuni'r cynigion yn y Mesur Plant.

### Lleoedd Gofal Plant sydd ar gael ar gyfer Plant Cyn Oed Ysgol

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyfanswm y lleoedd gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant cyn oed ysgol yng Nghymru fesul ardal awdurdod lleol? (WAQ35064)

**Jane Hutt:** Dengys y tabl canlynol nifer y gwarchodwyr plant a'r sefydliadau a'r lleoedd a ddefnyddir ar gyfer gofal dydd llawn, meithrinfeydd a gofal sesiynol sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i ddarparu gofal i blant dan wyth oed. Nid oes gan yr arolygiaeth wybodaeth sy'n dadanosddi'r lleoedd yn ôl categori oedran. Bydd y ffigurau hyn, felly, yn cynnwys lleoedd sydd ar gael i blant cyn oed ysgol a phlant o oed ysgol. Y ffigurau hyn yw uchafswm y lleoedd sydd wedi'u cofrestru. Gellir cael gwybodaeth am y lleoedd gwag mewn sefydliad unigol oddi wrth y gwasanaethau gwybodaeth lleol am blant.

| **Lleoledd gofal plant cofrestredig yn ôl awdurdod lleol ar 5 Mai 2004.** | **Nifer** | **Lleoedd** |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | **117** | **1,305** |
| Gwarchodwr plant | 57 | 291 |
| Meithrinfa | 7 | 78 |
| Gofal dydd llawn | 4 | 80 |
| Gofal dydd sesiynol | 49 | 856 |
| **Blaenau Gwent** | **44** | **346** |
| Gwarchodwr plant | 29 | 105 |
| Meithrinfa | 3 | 40 |
| Gofal dydd llawn | 4 | 69 |

| | | |
|---|---|---|
| Gofal dydd sesiynol | 8 | 132 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **167** | **2,225** |
| Gwarchodwr plant | 108 | 600 |
| Meithrinfa | 1 | 16 |
| Gofal dydd llawn | 23 | 818 |
| Gofal dydd sesiynol | 35 | 791 |
| **Caerffili** | **202** | **2,076** |
| Gwarchodwr plant | 148 | 652 |
| Meithrinfa | 3 | 87 |
| Gofal dydd llawn | 14 | 405 |
| Gofal dydd sesiynol | 37 | 932 |
| **Sir Gaerfyrddin** | **169** | **2,427** |
| Gwarchodwr plant | 79 | 425 |
| Meithrinfa | 4 | 121 |
| Gofal dydd llawn | 21 | 672 |
| Gofal dydd sesiynol | 65 | 1,209 |
| **Caerdydd** | **427** | **5,782** |
| Gwarchodwr plant | 292 | 1,698 |
| Meithrinfa | 21 | 470 |
| Gofal dydd llawn | 56 | 2,174 |
| Gofal dydd sesiynol | 58 | 1,440 |
| **Ceredigion** | **117** | **1,217** |
| Gwarchodwr plant | 65 | 298 |
| Gofal dydd llawn | 9 | 268 |
| Gofal dydd sesiynol | 43 | 651 |
| **Conwy** | **152** | **2,418** |
| Gwarchodwr plant | 73 | 431 |
| Meithrinfa | 2 | 28 |
| Gofal dydd llawn | 26 | 915 |
| Gofal dydd sesiynol | 51 | 1,044 |
| **Sir Ddinbych** | **129** | **2,520** |
| Gwarchodwr plant | 57 | 317 |
| Gofal dydd llawn | 29 | 1,244 |
| Gofal dydd sesiynol | 43 | 959 |
| **Sir y Fflint** | **217** | **3,278** |
| Gwarchodwr plant | 126 | 669 |
| Meithrinfa | 5 | 123 |
| Gofal dydd llawn | 28 | 1,154 |
| Gofal dydd sesiynol | 58 | 1,332 |
| **Bro Morgannwg** | **237** | **2,590** |
| Gwarchodwr plant | 175 | 1,001 |
| Meithrinfa | 11 | 151 |
| Gofal dydd llawn | 14 | 492 |
| Gofal dydd sesiynol | 37 | 946 |
| **Gwynedd** | **204** | **2,320** |
| Gwarchodwr plant | 111 | 545 |
| Meithrinfa | 6 | 66 |
| Gofal dydd llawn | 18 | 612 |
| Gofal dydd sesiynol | 69 | 1,097 |
| **Merthyr Tudful** | **32** | **497** |
| Gwarchodwr plant | 14 | 59 |
| Gofal dydd llawn | 7 | 246 |
| Gofal dydd sesiynol | 11 | 192 |

| | | |
|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | **128** | **1,370** |
| Gwarchodwr plant | 87 | 315 |
| Meithrinfa | 1 | 8 |
| Gofal dydd llawn | 10 | 390 |
| Gofal dydd sesiynol | 30 | 657 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **85** | **901** |
| Gwarchodwr plant | 57 | 337 |
| Gofal dydd llawn | 12 | 332 |
| Gofal dydd sesiynol | 16 | 232 |
| **Casnewydd** | **162** | **2,150** |
| Gwarchodwr plant | 104 | 377 |
| Meithrinfa | 3 | 72 |
| Gofal dydd llawn | 22 | 950 |
| Gofal dydd sesiynol | 33 | 751 |
| **Sir Benfro** | **134** | **1,865** |
| Gwarchodwr plant | 71 | 420 |
| Meithrinfa | 2 | 33 |
| Gofal dydd llawn | 12 | 407 |
| Gofal dydd sesiynol | 49 | 1,005 |
| **Powys** | **161** | **1,744** |
| Gwarchodwr plant | 87 | 328 |
| Gofal dydd llawn | 26 | 560 |
| Gofal dydd sesiynol | 48 | 856 |
| **Rhondda Cynon Taf** | **219** | **2,370** |
| Gwarchodwr plant | 149 | 771 |
| Meithrinfa | 6 | 65 |
| Gofal dydd llawn | 22 | 655 |
| Gofal dydd sesiynol | 42 | 879 |
| **Abertawe** | **210** | **2,917** |
| Gwarchodwr plant | 137 | 722 |
| Meithrinfa | 2 | 16 |
| Gofal dydd llawn | 34 | 1379 |
| Gofal dydd sesiynol | 37 | 800 |
| **Tor-faen** | **113** | **1,343** |
| Gwarchodwr plant | 69 | 263 |
| Meithrinfa | 10 | 143 |
| Gofal dydd llawn | 14 | 484 |
| Gofal dydd sesiynol | 20 | 453 |
| **Wrecsam** | **168** | **3,048** |
| Gwarchodwr plant | 70 | 349 |
| Meithrinfa | 5 | 68 |
| Gofal dydd llawn | 32 | 1,181 |
| Gofal dydd sesiynol | 61 | 1,450 |
| **Cyfansymiau** | **3,594** | **46,709** |

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion Iau**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i oedolion iau yng Nghymru? (WAQ35109)

**Jane Hutt:** Cyflwynwyd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i oedolion iau yng Nghymru ym mis Ebrill 2002 ar ôl ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid. Mewn ymateb i adborth o'r sector a'i gynrychiolwyr mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn cynnwys safonau atodol ar gyfer

cartrefi gofal sy'n darparu llety i bobl ifanc 16 a 17 oed. Caiff y safonau gofynnol cenedlaethol eu defnyddio gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol i reoleiddio'r sector gofal yng Nghymru, wrth benderfynu pa un a yw cartrefi gofal yn bodloni'r gofynion rheoleiddio.

Yn gynharach eleni llaciais y safonau gofynnol cenedlaethol i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn fel y'u cymhwysir i gartrefi gofal bach—tri neu lai o breswylwyr—a bwriadaf ymgynghori ynghylch llacio'r safonau cyfatebol yng nghyswllt oedolion iau yn fuan.

**Graddedigion Proffesiynau Perthynol i Iechyd (Cynllun Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr)**

**Lorraine Barrett:** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun ad-dalu benthyciadau myfyrwyr i raddedigion proffesiynau perthynol i iechyd sy'n gweithio yn y GIG? (WAQ35112)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o'r ymgyrch ddiweddar gan y Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig i gyflwyno cynllun ad-dalu benthyciadau myfyrwyr a fyddai'n dileu dyledion myfyriwr graddedigion yn y proffesiynau perthynol i iechyd sy'n gweithio yn y GIG, ac o'r materion ehangach sy'n wynebu myfyrwyr gofal iechyd o safbwynt arian.

Yr wyf yn cwrdd â dirprwyaeth o fyfyrwyr ar 11 Mehefin i drafod y materion hyn. Yn y cyfamser, yr wyf yn ymwybodol fod rhai cyflogwyr yn ystyried cynlluniau lleol i'w helpu i recriwtio a byddaf yn parhau i gadw llygad ar y mater arbennig hwn.

**Prosiectau Seilwaith yn Ymwneud ag Iechyd**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o brosiectau seilwaith yn ymwneud ag iechyd yng Nghymru wedi'u rhan-ariannu gan fanc buddsoddi Ewrop sydd wedi cael sêl bendith yn y pum mlynedd diwethaf? (WAQ35275)

**Jane Hutt:** Corfforaeth breifat yw banc buddsoddi Ewrop, felly nid oes gwybodaeth amdano yn cael ei gadw'n ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch gysylltu â'r banc yn uniongyrchol yn 68 Pall Mall, Llundain, SW1Y 5ES, neu dros y ffôn ar 020 7343 1200.

**Fformiwla Townsend ar Hyn o Bryd**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y meini prawf a'r dangosyddion a ddefnyddiwyd wrth bennu dyraniad cyfredol fformiwla Townsend ar gyfer byrddau iechyd lleol? (WAQ35335)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y meini prawf a'r dangosyddion y cytunwyd i'w defnyddio wrth bennu fformiwla Townsend? (WAQ35339)

**Jane Hutt:** Mae'r fformiwla wedi'i seilio ar anghenion iechyd y boblogaeth. Y prif ffactorau sbarduno yn y fformiwla yw poblogaeth breswyl pob bwrdd iechyd lleol wedi'i lluosi â chostau diwallu anghenion iechyd y boblogaeth honno.

- Mae'r data am y boblogaeth breswyl wedi'i seilio ar gyfrifiad 2001. Cafodd anghenion iechyd y boblogaeth eu cipio'n bennaf drwy ymatebion i arolwg iechyd Cymru, sy'n fodd i adnabod angen yng nghyd-destun ystod o gyflyrau gofal iechyd ar lefel dalgylchoedd y byrddau iechyd lleol. Caiff costau hyn eu deillio o ddata a ddarperir gan ymddiriedolaethau'r GIG, ar sail y cyfrifon blynyddol.
- Mae'r fformiwla yn dal i gydnabod ffactorau eraill y mae angen iddynt effeithio ar y dyraniad adnoddau, yn ychwanegol at anghenion iechyd, gan gynnwys:
    - costau gwahaniaethol trin cleifion hŷn—gwneir addasiad oedran i'r fformiwla,
    - costau gwahaniaethol trin cleifion yn y gymuned mewn ardaloedd gwledig—gwneir addasiad costau gwledig i adlewyrchu'r cynnydd yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

### Cost Gweithdrefnau Llawfeddygol

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru cost pob gweithdrefn lawfeddygol ym mhob ymddiriedolaeth GIG yn fanwl? (WAQ35336)

**Jane Hutt:** Dim ond am gost afresymol y gellir darparu gwybodaeth yn manylu ar gost pob gweithdrefn lawfeddygol yr ymgymerir â hi gan bob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru. Mae gwybodaeth am y gweithdrefnau llawfeddygol mwyaf cyffredin ar gael yn y cyhoeddiad swyddogol sy'n ymdrin â gweithgarwch a chostau yn ysbytai Cymru.

### Ysgol Glinigol Abertawe (Faint o Leoliadau Hyfforddi sydd ar gael)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi'n fanwl faint o leoliadau hyfforddi sydd ar gael yn ysgol glinigol Abertawe? (WAQ35337)

**Jane Hutt:** Bydd y cynllun i dderbyn myfyrwyr gradd meddygol yn Abertawe yn dechrau ym mis Medi 2004 gyda charfan o 35 o fyfyrwyr. Bydd hwn yn ddatblygiad addysgol meddygol unigryw i Gymru, yn cywasgu'r rhaglen astudio bum mlynedd draddodiadol i bedair blynedd ac yn cynhyrchu meddygon cymwysedig ar gyfer y GIG yn gyflymach nag a fu'n bosibl yn y gorffennol. Rhagwelir y bydd y cynllun hwn yn ehangu i gynnwys carfan flynyddol o 70 o fyfyrwyr erbyn 2005. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at gynyddu'r garfan yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd o 70 o fyfyrwyr, gan ddod â chyfanswm y myfyrwyr sy'n cael hyfforddiant meddygol yng Nghymru i 360 y flwyddyn.

### Amseroedd Aros yn Ysbytai Treforys a Singleton

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amseroedd aros yn ysbytai Treforys a Singleton? (WAQ35338)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth am amseroedd aros mewn ysbytai unigol yn cael ei chadw'n ganolog. O fewn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, ar 31 Mawrth 2004:

- nid oedd neb yn aros mwy na 10 mis am lawdriniaeth gardiaidd;
- nid oedd neb yn aros mwy na 18 mis ym maes orthopedeg,
- nid oedd neb yn aros mwy na phedwar mis am lawdriniaeth cataract ac
- nid oedd neb yn aros mwy na 18 mis am donsilectomi.

Yr oedd 625 o gleifion wedi aros dros 18 mis am lawdriniaeth fel cleifion mewnol neu achosion dydd ac yr oedd 2,676 wedi aros dros 18 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol.

### Ysgolion Clinigol yng Ngwent ac yn y Gogledd (Faint o Leoliadau Hyfforddi sydd ar gael)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ysgolion clinigol yng Ngwent ac yn y Gogledd, ac a wnaiff nodi'n fanwl faint o leoliadau hyfforddi sydd ar gael? (WAQ35340)

**Jane Hutt:** Yng Nghymru, hyd yma, yr ydym wedi cynyddu nifer y myfyrwyr meddygol sy'n cael eu derbyn i bob carfan o 100, i 290 y flwyddyn, gyda chynnydd pellach o 35 o fyfyrwyr ar gynllun newydd i dderbyn myfyrwyr gradd yn Abertawe o fis Medi 2004. Yn dilyn y cynnydd hwnnw, mae achosion busnes ar gyfer ysgolion clinigol yng Ngwent a gogledd Cymru wedi cael eu datblygu er mwyn cynyddu capasiti ac ansawdd yr addysg feddygol a sicrhau bod cyfleusterau clinigol addas ar gael i ddarparu ar gyfer y garfan fwy. Mae hyn yn ychwanegol at yr ysgol glinigol a agorwyd yn Abertawe y llynedd.

Yr wyf yn falch o ddweud bod achos busnes ysgol glinigol gogledd Cymru wedi cwblhau'r broses gwaith llaw drylwyr sy'n manylu ar y buddsoddiad cyfalaf a cham yr achos busnes llawn a'i bod wedi cael ei chymeradwyo. Mae'r achos busnes gogyfer ysgol glinigol Gwent ar ei ffordd drwy'r achos busnes amlinellol ar hyn o bryd, sy'n rhan o'r broses gwaith llaw sy'n manylu ar y buddsoddiad cyfalaf. Fel rhan

o hyn, mae'r bwrdd buddsoddi cyfalaf wedi gofyn am i'r cynigion yn yr achos busnes gael eu dilysu'n allanol. Disgwylir i'r adroddiad dilysu gael ei gyflwyno i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf ddiwedd mis Mai.

### Rhaglenni Imiwneiddio

**Lorraine Barrett:** O dan ba amgylchiadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried rhaglenni imiwneiddio fel y dulliau gorau o atal clefydau? (WAQ35342)

**Jane Hutt:** Profwyd ar draws y byd fod imiwneiddio yn ddull cost effeithiol, wedi'i seilio ar y boblogaeth, o amddiffyn pobl rhag amryw o glefydau difrifol. Mae'r rhaglenni imiwneiddio ar draws pedair gwlad y DU wedi'u seilio ar gyngor y Cyd Bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, sy'n defnyddio gwybodaeth oddi wrth Sefydliad Iechyd y Byd a'r Undeb Ewropeaidd. Gan ddilyn argymhellion, mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn rhoi gweithdrefnau trwyddedu llym ar waith.

Mae'r Cyd Bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yn rheolaidd, yn adolygu data gwyddonol a meddygol gan rwydwaith cenedlaethol a rhyngwladol helaeth o arbenigwyr sydd â degawdau o brofiad o fonitro mynychder clefydau a manteision a risg imiwneiddio. Caiff llawer o ffactorau eu cymryd i ystyriaeth, megis difrifoldeb y clefyd ac a oes brechlyn saff ac effeithiol ar gael.

### Rhaglenni Imiwneiddio (Plant o dan ddwy oed)

**Lorraine Barrett:** Pa raglenni imiwneiddio sydd yn eu lle ar gyfer plant o dan ddwy oed yng Nghymru? (WAQ35349)

**Jane Hutt:** Caiff plant o dan ddwy eu hamddiffyn yn gynnar drwy'r rhaglen arferol i imiwneiddio plant rhag difftheria, tetanws, pertwsis, hib, llid yr ymennydd a pholio, gyda thri dos yr un yn cael eu rhoi yn ddau, tri a phedwar mis oed. Yr wyf yn falch fod plant sy'n cyrraedd eu hail ben-blwydd wedi cael eu himiwneiddio'n llawn, gyda chydsyniad eu rhieni, rhag difftheria, tetanws, polio, pertwsis, ffliw haemoffilws math b (hib) a llid yr ymennydd C. Byddant hefyd wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn cyfunol ar gyfer y frech goch, clwy'r pennau a rwbela—a chaiff y dos terfynol ei gynnig cyn iddynt fynd i'r ysgol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Problemau Masnachu mewn Cyffuriau

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiant heddlu Gwent wrth fynd i'r afael â phroblemau masnachu mewn cyffuriau yn eu hardal? (WAQ35295)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae tasglu Cymru gyfan, Ymgyrch Tarian, ac ymgyrchoedd unigol gan yr heddlu, megis Ymgyrch Besort lwyddiannus Heddlu Gwent, yn cael effaith o bwys ar fasnachu mewn cyffuriau. Bydd ymgyrch 'Rat on a Rat', a lansiais yng Ngwent yr wythnos hon, yn gyfrwng pellach i ddod â'r rhai sy'n masnachu mewn cyffuriau o flaen eu gwell.

### Safon Ansawdd Tai Cymru

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau a wnaed er mwyn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru? (WAQ35296)

**Edwina Hart:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i landlordiaid tai cymdeithasol fod â gwybodaeth fanwl am gyflwr eu stoc tai erbyn 2006, ac i'w holl dai gyrraedd safon ansawdd tai Cymru

erbyn 2012. Mae'r awdurdodau lleol yn y broses o ddatblygu cynlluniau busnes eu stoc tai cyngor er mwyn ystyried lefelau buddsoddi a'r ffyrdd gorau o ariannu a rhaglennu'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddu

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran ceisio lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu? (WAQ35297)

**Edwina Hart:** Mae'r partneriaethau diogelwch cymunedol yn cymryd camau sylweddol ymlaen tuag at ostwng lefel troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws Cymru. Ers i'r dull partneriaeth gael ei gyflwyno gyntaf yng Nghymru, mae'r lefel droseddu wedi gostwng 25 y cant.

### Camddefnyddio Alcohol

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamddefnyddio alcohol ymysg pobl ifanc yng Nghymru? (WAQ35298)

**Edwina Hart:** Mae gostwng y gyfran o bobl ifanc o dan 18 sy'n meddwi yn amcan allweddol yn strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Addysg yw'r allwedd er mwyn cyrraedd y nod hwn ac yr wyf wedi buddsoddi dros £3 miliwn dros gyfnod o dair blynedd yn rhaglen ysgolion Cymru gyfan er mwyn dysgu plant a phobl ifanc am y niwed y gall alcohol a sylweddau eraill ei achosi.

### Lleihau Tlodi yng Nghymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y datblygiadau i geisio lleihau tlodi yng Nghymru? (WAQ35299)

**Edwina Hart:** Mae fy adroddiad cyfiawnder cymdeithasol am 2004 yn nodi'r amryw o bolisïau a rhaglenni o fewn fy mhortffolio sy'n effeithio ar dlodi yng Nghymru.

### Swyddfeydd Post Bach

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi swyddfeydd post bach yng Nghymru? (WAQ35300)

**Edwina Hart:** Y gronfa datblygu swyddfeydd post yw ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r amgylchiadau sy'n wynebu swyddfeydd post mewn ardaloedd anghysbell a difreintiedig. Mae'r gronfa, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2002, yn helpu i gynnal y rhwydwaith post yng Nghymru ac mae'n anogaeth i swyddfeydd post i ychwanegu at yr amrywiaeth gwasanaethau y maent yn eu cynnig er budd trigolion lleol. O'r pedwar cylch a gynhaliwyd yn 2003, mae'r gwaith o asesu'r ceisiadau a gyflwynwyd o dan gylchoedd 1, 2 a 3 wedi cael ei gwblhau ac yr wyf wedi dyfarnu dros £2.3 miliwn i 58 o swyddfeydd post unigol. Bwriadaf wneud cyhoeddiad am gylch 4 ddiwedd mis Mai.

### Tai Fforddiadwy ar gael i Bobl Ifanc yng Ngogledd Cymru

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a oes tai fforddiadwy ar gael i bobl ifanc yng ngogledd Cymru? (WAQ35301)

**Edwina Hart:** Mae dros £10 miliwn o grant tai cymdeithasol wedi cael ei ddyrannu i'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar ffurf tai i'w rhentu neu gymorth i brynu tŷ. Bydd yr arian hwn, ynghyd â'r cyllid preifat a godir gan y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn golygu bod bron i £15 miliwn ar gael i awdurdodau gogledd Cymru.

Yn unol â’n hegwyddor o gyflenwi’n lleol, mater i’r awdurdodau lleol yw penderfynu ar y blaenoriaethau gwario ar gyfer yr arian hwn. Ni chyfyngir ar y gyfran o’u dyraniad grant tai cymdeithasol y gall awdurdodau ei wario ar dai fforddiadwy i bobl iau.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Ngogledd Cymru**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng ngogledd Cymru? (WAQ35302)

**Edwina Hart:** Mae partneriaethau diogelwch cymunedol gogledd Cymru ac asiantaethau unigol yn mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn nifer o ffyrdd. Maent yn gwneud defnydd cynyddol o’r fframwaith deddfwriaethol newydd i’w helpu yn eu hymdrechion. Yn ogystal, mae’r heddlu wedi lansio eu hymgyrch ‘Dyna Ddigon’, mae swyddogion cefnogi cymunedau newydd wedi cael eu penodi i helpu’r heddlu i fynd i’r afael ag ymddygiad sy’n achosi problemau a defnyddir dirwyon yn y fan a’r lle lle bo hynny’n briodol. Mae’r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid ar gyfer cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol i bob partneriaeth diogelwch cymunedol, a fydd yn golygu bod modd canolbwyntio’r ymdrechion yn well fyth.

**Tai Cymdeithasol Digonol**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau tai cymdeithasol digonol yng Nghymru? (WAQ35303)

**Edwina Hart:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd gan y Prif Weinidog i’ch cwestiwn, OAQ34825, ar 11 Mai.

**Agwedd Tuag at Alcohol**

**Irene James:** A wnaiff y Gweindog ddatganiad ar y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog agwedd gyfrifol tuag at alcohol? (WAQ35304)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn fod mynd i’r afael â chamddefnyddio alcohol yr un mor bwysig â mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau. Dyna pam yr ydym wedi cynnwys alcohol yn ein strategaeth genedlaethol ac mae’r 22 partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru wedi cymryd hynny i ystyriaeth wrth ddatblygu eu cynlluniau gweithredu lleol.

Yr wyf yn llwyr gadarnhau’r farn fod angen newid agweddau tuag at alcohol ac yr wyf yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau’r heddlu yng Nghymru ynghylch deddfau a mesurau trwyddedu newydd y gellir eu cymryd i annog yfed yn synhwyrol a gwrthsefyll ymddygiad afreolus. Addysg yw’r allwedd i hyn hefyd ac yr wyf wedi buddsoddi £3 miliwn dros gyfnod o dair blynedd yn rhaglen ysgolion Cymru gyfan i ddysgu plant a phobl ifanc am y niwed y gall alcohol a sylweddau eraill ei achosi.

**Gweithredu Cyfle Cyfartal**

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae’n monitro’r dull o weithredu cyfle cyfartal ar draws ystod cyfrifoldebau’r Cynulliad? (WAQ35305)

**Edwina Hart:** Y broses ffurfiol i fonitro dull y Cynulliad o weithredu cyfle cyfartal yw’r adroddiad blynyddol i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

**Gweithwyr Lleol a Defnyddio Deunyddiau Lleol**

**Owen John Thomas:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi ar gyflogi gweithwyr lleol a defnyddio deunyddiau lleol wrth weithredu prosiectau adfywio sy'n rhan o'i phortffolio? (WAQ35306)

**Edwina Hart:** Mae Ailfeddwl am Adeiladu yn argymell ymrwymiad i wella'n barhaus ac i sicrhau gwell ansawdd, gwerth am arian a chynaliadwyedd ym maes adeiladu. Yr wyf yn cefnogi Canolfan Ailfeddwl Adeiladu Cymru—a adwaenir erbyn hyn fel Constructing Excellence Wales—fel adnodd ar gyfer y diwydiant yng Nghymru.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai wedi cyhoeddi canllawiau arferion caffael gorau yng nghyd-destun adeiladu ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sy'n argymell yn benodol na ddylai dulliau newydd o ymdrin â chaffael allgáu cwmnïau adeiladu bach a chanolig eu maint, sy'n fwy tebygol o fod yn gwmnïau lleol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'i bartneriaid—landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol—ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar brosiect peilot i ddarparu hyfforddiant mewn crefftau adeiladu i bobl leol, ar sail rhaglen trosglwyddo stoc Pen-y-bont ar Ogwr.

Nid wyf wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau penodol ar ddefnyddio deunyddiau lleol, ond yr wyf wedi sefydlu gweithgor amlasiantaethol i archwilio ym mha ffyrdd eraill y gall buddsoddiad mewn tai gael ei ddefnyddio fel catalydd i roi hwb i'r economi leol. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r gadwyn gyflenwi leol a hyfforddi a chyflogi pobl leol. Bydd yn adeiladu ar y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud gan Valleys to Coast Housing ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn sgîl trosglwyddo stoc dai'r cyngor.